CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Grantiau Gweithdai Ymchwil 2025-2026

---

Bydd yr alwad yn agor ar: 8 Medi 2025

Bydd yr alwad yn cau ar: 31 Hydref 2025, 4pm

Dylid cyflwyno ceisiadau ar-lein trwy ddefnyddio Ffurflen Gais – Grantiau Gweithdai

---

Bwriad y cynllun grant yw annog ymchwilio cydweithredol i gais ymchwil sydd ar gam cynnar yn ei ddatblygiad. Yn y rownd hon, gallwn gyllido hyd at 18 prosiect ar gyfer sefydliadau yng Nghymru.

Ceir pedair ffrwd yn 2025-2026, sef:

- Astudiaethau Cymreig
- Ymchwilydd Gyrfa Gynnar (unrhyw ddisgyblaeth)
- Y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol
- Llwybrau at Heddwch (a noddir gan Academi Heddwch Cymru)

## Beth yw gweithdy ymchwil?

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn ystyried bod Gweithdy'n gyfle i ysgolheigion ddod ynghyd yn gynnar yn y broses i gynllunio a datblygu menter ymchwil gydweithredol. Sylwer mai bwriad y grantiau hyn yw annog a chefnogi un neu fwy o gyfarfodydd a digwyddiadau (gweithdai) i hyrwyddo'r gwaith o archwilio'r pwnc; ni fydd un digwyddiad, lle rhennir gwaith ymchwil sydd wedi'i gwblhau neu waith ymchwil uwch, yn gymwys dan y cynllun hwn. Nid yw'r grant yn cwmpasu gweithgareddau a fyddai wedi cael eu cynnal beth bynnag (er enghraifft, gweithgareddau'n ymwneud â chynadleddau sy'n bodoli eisoes).

Rhagwelir y bydd Gweithdai'n arwain at ddatblygu rhwydwaith, neu at amlinellu syniad ar gyfer gwneud cais am brosiect grant yn y maes a archwilir, er mwyn esgor ar ganlyniadau pendant a fydd o werth i gymunedau academaidd a/neu i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Dylai ceisiadau llwyddiannus gychwyn ar ôl 1 Ionawr 2026 a dylent orffen erbyn 31 Gorffennaf 2026.

## Pwy gaiff ymgeisio?

Rhaid i'r cynigion gynnwys dau sefydliad neu fwy.

Rhaid i'r Ymgeiswyr Arweiniol weithio i gyflogwr a leolir yng Nghymru, a bod yn un o'r canlynol:

- yn academydd amser llawn neu ran-amser a gyflogir gan Sefydliad Addysg Uwch;
- yn ymarferydd amser llawn neu ran-amser neu'n aelod staff ymchwil yn y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector, gydag ymrwymiad amlwg i addysgu ac ymchwil o fewn y sefydliad hwnnw.

Gall Ymgeiswyr Arweiniol fod ar gontract dros dro neu gontract parhaol yn eu sefydliad, ond rhaid iddynt fod â chontract a fydd yn cwmpasu hyd llawn y grant.

Hefyd, gall tîm y prosiect gynnwys y canlynol:

- ymchwilwyr academaidd eraill o unrhyw ddisgyblaeth,
- ymchwilwyr y tu allan i'r byd academaidd,
- y cyhoedd neu grwpiau sy'n delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd.

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu gan banel a benodir gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, a fydd yn dod i gonsensws wrth benderfynu pa geisiadau a fydd yn llwyddiannus. Efallai y gofynnir i ymgeiswyr am ragor o wybodaeth cyn cadarnhau bod grant wedi'i ddyfarnu iddynt.

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn unol â'r meini prawf a restrir yn yr adran 'Beth rydym yn chwilio amdano'.

Sylwer: dim ond un Grant Gweithdy gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru y caniateir ei ddal, neu y caniateir ymgeisio amdano, ar unrhyw adeg.

## Beth rydym yn chwilio amdano

Dyma amcanion hollbwysig y cynllun cyllido:

- Gweithio gyda phartneriaid allanol i gydgynhyrchu canlyniadau ymchwil ac i gyfnewid gwybodaeth ar draws sectorau.
- Sicrhau bod egwyddorion ac arferion gorau mewn perthynas â gweithio rhyngddisgyblaethol yn cael eu mabwysiadu o'r cychwyn cyntaf, gan arwain at allu datblygu partneriaethau gwirioneddol gydweithredol a fydd yn esgor ar atebion i heriau cymhleth.
- Ystyried, a chyfrannu at, saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym yn eich cynghori i ymdrin â phob un o'r amcanion hyn yn eich disgrifiad o'r prosiect:

Yn ychwanegol at yr egwyddorion hyn, mae gan bob ffrwd gyllido feini prawf penodol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw yn y cais:

- **Astudiaethau Cymreig**
    - Ymchwil yn ymwneud â Chymru a'i chysylltiadau â'r byd ehangach. Dylai ymgeiswyr ar gyfer y ffrwd hon nodi sut y mae eu gweithdy'n berthnasol i gyd-destun Cymru a sut y gellir gwella dealltwriaeth o faterion hollbwysig yn y Gymru gyfoes a'i hanes.
- **Ymchwilydd Gyrfa Gynnar**
    - Rhaid i'r ymgeiswyr arweiniol fod yn 'Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar'.
    - Diffinnir 'Ymchwilydd Gyrfa Gynnar' fel ymchwilydd sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn yr adran 'Pwy gaiff ymgeisio' yn y ddogfen hon, nad yw wedi sefydlu annibyniaeth ymchwil ar lefel sylweddol eto. Yn eu cais, rhaid i'r ymgeiswyr esbonio pam y maent yn eu hystyried eu hunain yn Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar.
    - Ffrwd agored yw hon – hynny yw, gall y Gweithdai fod mewn unrhyw ddisgyblaeth neu unrhyw faes ymchwil. Yn eich cais, dylech nodi gwerth y Gweithdy/Gweithdai i'ch maes ymchwil a'ch datblygiad proffesiynol.
- **Y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol**
    - Mae'r ffrwd hon ar gael i ymchwilwyr yn y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol.
    - Dylai'r ymgeiswyr nodi'r manteision disgwyliedig sydd ynghlwm wrth ddatblygu trefniadau cydweithredu newydd, ynghyd â chanlyniadau disgwyliedig y cydweithredu hwnnw – megis a allai arwain at ddatblygu papur ymchwil neu gais am gyllid yn y dyfodol.
- **Llwybrau at Heddwch (a noddir gan Academi Heddwch Cymru[1])**
    - Dylai'r ymgeiswyr nodi sut y bydd y prosiect yn datblygu gwell dealltwriaeth o heddwch neu sut y bydd yn mynd i'r afael â materion penodol yn ymwneud â heddwch. Hefyd, mae gan Academi Heddwch Cymru ddiddordeb mewn ceisiadau a fydd yn ymdrin â ffurfiau newydd ar filitariaeth, yng Nghymru ac yn ehangach.[2] O'r herwydd, mae gennym ddiddordeb mewn cynigion a fydd yn asesu presenoldeb milwrol yng Nghymru ac mewn mannau eraill ac a fydd, hefyd, yn asesu'r modd y caiff y presenoldeb hwnnw ei ymgorffori oddi mewn i economi, cymdeithas a diwylliant gwledydd, yr effaith a gaiff ar yr amgylchedd naturiol, a'r effaith a gaiff ar fywydau a gwerthoedd cymdeithas (leol neu genedlaethol). Gofynnwn yn garedig i'r ymgeiswyr nodi a fydd eu cyflwyniad yn ymwneud yn benodol â Militariaeth Gyfoes, ynteu â Heddwch yn gyffredinol.
    - Rhoddir ystyriaeth arbennig i brosiectau a fydd yn mynd i'r afael â'r modd y gallai Cymru hyrwyddo heddwch yng Nghymru neu'n rhyngwladol, a/neu i

[1] Ariennir yr Academi Heddwch gan adran Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru.

[2] At ddibenion yr alwad hon, yn ogystal â golygu presenoldeb lluoedd arfog a gwariant gwledydd neu wladwriaethau ar luoedd arfog, mae militariaeth yn golygu'r modd y mae gwerthoedd milwrol yn treiddio i'r gymdeithas.

brosiectau a fydd yn gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol. Bydd modd i brosiectau â phartner rhyngwladol wneud cais am £1,000 yn ychwaneg. Dylai'r ymgeiswyr sy'n ymgeisio am y cyllid ychwanegol hwn nodi'n glir sut y bydd cyfranogiad y partner rhyngwladol o fudd i'r partner ac i'r prosiect.

- Noddir dyfarniadau'r ffrwd Llwybrau at Heddwch gan Academi Heddwch Cymru. Nod yr Academi Heddwch yw ymestyn yr hen draddodiad o ran gwneud heddwch a hyrwyddo heddwch yng Nghymru, trwy ddatblygu a chydlynu cymuned annibynnol o ymchwilwyr mewn meysydd perthynol. Ariennir yr Academi Heddwch gan Lywodraeth Cymru, a'i nod yw sicrhau bod gan heddwch le amlwg ar agenda genedlaethol Cymru, a hefyd ar y llwyfan rhyngwladol, trwy weithio gyda rhwydwaith byd-eang o sefydliadau heddwch sy'n bodoli eisoes.
- I'r Academi Heddwch, mae heddwch yn golygu mwy nag absenoldeb rhyfel. Mae a wnelo heddwch â chymdeithasau'n byw heb ofn, ynghyd â gwytnwch cymdeithasol ochr yn ochr â hawliau unigolion, a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, tegwch, parch a chydraddoldeb er mwyn creu byd gwell. I gael rhagor o wybodaeth, gweler gwefan Academi Heddwch Cymru.

Dim ond am un ffrwd gyllido y gallwch wneud cais.

**Uniondeb Ymchwil a Phartneriaethau Teg**

Dylai ymgeiswyr arddangos arferion gwaith cyfrifol a chydymffurfio â chanllawiau moesegol, ynghyd â chynnal egwyddorion uniondeb ymchwil (fel y nodir yn UKCORI) a rheoli'r ymchwil yn effeithiol. Cynghorir ymgeiswyr llwyddiannus i geisio cymeradwyaeth foesegol ar gyfer eu prosiectau os bydd angen.

Dylid cytuno ar bartneriaethau ymchwil cyn dechrau ar unrhyw waith (gan ystyried cyfrifoldebau, adnoddau, rhannu data, a manteision). Disgwyliwn i'r cydberthnasau hyn fod yn dryloyw a disgwyliwn iddynt gael eu seilio ar barch tuag at y naill a'r llall.

Ceir rhagor o ganllawiau ar sut i gynnal gwaith ymchwil da yma.

Yn ogystal â'r gofynion cyfreithiol hollbwysig, dylai'r ymgeiswyr ddisgrifio sut y byddant yn mynd i'r afael ag anghenion penodol yn ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn unol ag ymrwymiad Cymdeithas Ddysgedig Cymru i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

## Manylion Cyllido

Cewch ymgeisio am hyd at £1,000 i gynorthwyo eich prosiect, neu £2,000 os ydych yn ymgeisio am y ffrwd Llwybrau at Heddwch ac os ydych yn gweithio gyda phartner rhyngwladol. Dylai'r cynigion gynnwys costau uniongyrchol y gellir eu cyfiawnhau'n llwyr, a ysgwyddir wrth gyflawni'r prosiect.

Er enghraifft, gall costau uniongyrchol o'r fath gynnwys:

- adnoddau staff (yn cynnwys gweinyddu a chydlynu, cyfraniadau at gyflogau (lle bydd unigolyn a enwir yn gwneud gwaith na fyddai'n cael ei ystyried yn rhan o'i ddyletswyddau arferol), is-gontractio gwasanaethau, neu alluogi partneriaid cyhoeddus neu gymunedol i gymryd rhan).
- adnoddau nad ydynt yn ymwneud â staff (yn cynnwys costau deunyddiau, teithio a chynhaliaeth, cyfarfodydd a digwyddiadau, arlwyo, defnyddiau traul, deunyddiau a chyfarpar, a chostau gwerthuso).
- ariannu treuliau megis honorariwm ar gyfer amser, gofal plant a chostau eraill, er mwyn caniatáu i bobl oddi allan i'r byd academaidd gymryd rhan, megis cymunedau cyhoeddus, a hyfforddiant i feithrin gallu'r grwpiau hyn i chwarae rhan hyderus a gweithredol yng ngweithgareddau'r gweithdy/gweithdai a'r gwaith ymchwil perthynol.

Ariennir yr alwad hon y tu allan i reolau costau economaidd llawn.

Gall sefydliad yr ymgeisydd llwyddiannus a'r sefydliadau partner ychwanegu at y grantiau. Os ydych yn ymgeisio am gyllid ychwanegol o rywle arall, dylech nodi hyn yn eich cais.

**Costau na fyddant yn cael eu talu**

Rhaid i'r gyllideb a'r costau fod yn seiliedig ar amcangyfrifon dilys. Ni roddir arian ar gyfer y canlynol:

- costau ystadau a chostau anuniongyrchol
- cyfarpar swyddfa a gliniaduron, neu unrhyw gyfarpar nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â chynnal y gweithdy
- ffioedd neu honoraria i bobl sydd eisoes mewn cyflogaeth â thâl i gyflawni gweithgareddau lle byddai gweithgareddau o'r fath yn cael eu gwneud yn rhesymol fel rhan o'u dyletswyddau arferol
- cyllid ôl-weithredol, yn cynnwys y prosiectau hynny â dyddiad cychwyn ar ôl dyddiad cau'r alwad am gyllid, ond cyn i'r penderfyniadau cyllido gael eu cyhoeddi
- costau seilwaith neu gostau adeiladu
- mynychu cynadleddau sydd wedi'u trefnu
- treuliau a ysgwyddir wrth gyflwyno'r cais
- cyrsiau academaidd, fel graddau Meistr neu raddau PhD, a ffioedd dysgu eraill.

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn cadw'r hawl i beidio â chyllido hyd at y cyfyngiad a ddyrennir ar gyfer yr alwad, ac mae'n cadw'r hawl i newid cyfyngiadau cyllidebol y grantiau llwyddiannus.

**Darparu'r grantiau**

Bydd y broses ar gyfer darparu'r grantiau hyn fel a ganlyn:

- Bydd archeb brynu'n cael ei chodi, a bydd rhif archeb brynu'n cael ei rannu.
- Bydd y grant yn cael ei dalu i'r sefydliad arweiniol trwy anfoneb (rhaid cynnwys rhif yr archeb brynu, cyfeiriad y safle, cyfeiriad Cymdeithas Ddysgedig Cymru a rhif anfoneb unigryw).

**Effaith ac adrodd**

Gofynnir i'r ymgeiswyr llwyddiannus gyflwyno diweddariad am y cynnydd (trwy ddefnyddio ffurflen fer), erbyn 20 Mawrth 2026; ynghyd ag adroddiad terfynol yn nodi gweithgareddau, canlyniadau ac effaith y prosiect, erbyn 31 Awst 2016.

## Sut i ymgeisio

Rhaid cyflwyno'r cynigion trwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein erbyn 4pm ar 31 Hydref 2025. Ni fydd unrhyw ddogfen arall yn cael ei hystyried. Gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Dyma ddyddiadau hollbwysig y cynllun:

- Bydd yr alwad yn agor ar 8 Medi 2025
- Bydd yr alwad yn cau ar 31 Hydref 2025, 4pm
- Canlyniad y broses ddethol: erbyn 10 Rhagfyr 2025
- Dyddiadau cychwyn y prosiectau: ar ôl 1 Ionawr 2026
- Rhaid cwblhau'r prosiectau erbyn 31 Gorffennaf 2026
- Adroddiad interim: 20 Mawrth 2026
- Dyddiad yr adroddiad terfynol: 31 Awst 2026

**Canllawiau ar Lenwi'r Ffurflen Gais Ar-lein**

Mae'r ffurflen gais ar-lein ar gael yma. Hefyd, gall yr ymgeiswyr gael gafael ar gopi lawrlwythadwy o'r cwestiynau a gynhwysir yn y ffurflen ar ein gwefan.

Cynghorir yr ymgeiswyr i ysgrifennu eu hatebion trwy ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol ar wahân (e.e. Microsoft Word), gan gopïo a gludo'r testun wedyn ar y ffurflen ar-lein, yn barod i'w chyflwyno. Trwy wneud hyn, bydd modd osgoi colli unrhyw waith os na fydd modd ichi orffen llenwi'r cais ar un tro. Hefyd, argymhellwn eich bod yn cadw copi o'ch atebion ar gyfer eich cofnodion.

Rydym wedi awgrymu nifer y geiriau ar gyfer cwestiynau sydd angen atebion estynedig. Argymhellwn eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer galluogi'r panel adolygu i gyrchu'r cais.

Os cewch anawsterau wrth lenwi'r ffurflen neu os byddwch angen rhagor o gymorth, cysylltwch ag aelod o Dîm Datblygu Ymchwilwyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru ar:

researcherdevelopment@lsw.wales.ac.uk

## Diogelu Data

Bydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn storio eich data yn unol â'i Pholisi Preifatrwydd, sydd ar gael yma.

## Rhagor o Wybodaeth

Os byddwch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'n Tîm Datblygu Ymchwilwyr (researcherdevelopment@lsw.wales.ac.uk).